



Allwch chi ein helpu ni i helpu eraill?

Hoffem ni glywed am y problemau
sy'n codi dro ar ôl tro i'ch cleientiaid
neu ddefnyddwyr gwasanaeth.

Fel y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol, mae gennym amrywiaeth o bwerau cyfreithiol i fynd i'r afael â rhwystrau systemig i gydraddoldeb a thegwch.

Hoffem ni hefyd ymwneud â rhagor o achosion cyfreithiol sy'n strategol bwysig er mwyn sicrhau dyfarniadau gorfodol sy'n egluro neu'n atgyfnerthu hawliau pobl. Rydym wedi amlinellu wyth prif faes lle gallwn ddefnyddio'n bwerau rheoleiddio neu ymglyfreithio i sicrhau newid go iawn.





Addysg

Achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchoddedig yng nghyd-destun ysgolion a lleoliadau addysg uwch a phellach.



Gwaith

Achosion yn ymwneud â chrefydd neu gred, yn ogystal â'r rheiny sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu ym meysydd recriwtio a dilyniant gyrfa (yn enwedig ar sail anabledd a hil), yr economi gig a statws cyflogedig, a mynediad i gefnogaeth, cymorth a chyfiawnder i ddiodefwyr caethwasiaeth fodern.



Safonau Byw

Canolbwyntio ar fudd-daliadau lles (gan gynnwys sancsiynau a gorfodaeth), methiant i wneud addasiadau rhesymol wrth asesu cymhwysedd, ac achosion tai (gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â hil, addasiadau lesddaliad a galluedd meddyliol i ddod yn rhan o gytundeb tenantiaeth).



Rhwystrau i gyfiawnder sifil

Cost (ffioedd) ymglyfreithio, cymorth cyfreithiol a digido.



Iechyd

Darpariaeth a mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal iechyd meddwl neu ofal hirdymor annigonol, mynediad i wasanaethau wrth ryddhau o'r ysbyty, defnyddio dulliau ataliaeth, sefydliadu amhriodol, diffyg addasiadau rhesymol, cyfyngiadau o ran byw'n annibynnol, a gwasanaethau iechyd i bobl drawsryweddol.



Cyfiawnder a chadw

Defnyddio dulliau ataliaeth (gan gynnwys neilltuo) ym mhob math o leoliad, diogelu rhag colli rhyddid pobl nad yw'r galluedd ganddynt, darpariaeth mewn carchardai ar gyfer carcharorion hŷn a chadw rhieni unigol mewn achosion o ddyled.



Mynediad i wasanaethau a chyfranogi

Canolbwyntio ar oed, anabledd, hil, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, yn ogystal ag anawsterau cyfathrebu â darparwyr gwasanaeth, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, a gwasanaethau mabwysiadu.



Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Materion cadw, asesiadau oed, mynediad i gyfiawnder, a mynediad i ofal iechyd a gwasanaethau eraill (er enghraifft tai).

Os ydych chi'n gynrychiolydd cyfreithiol neu'n ymgynghorydd, beth am gysylltu â ni os clywch am achos y gallem ni ymdrin ag ef, neu broblem y gallwn ni ei datrys gyda'n pwerau unigryw? Y cyfan sydd ei angen yw'r manylion sylfaenol a bydd un o'n tîm cyfreithiol yn fodlon rhoi syniad i chi a yw'r mater yn un a allai hybu ein hamcanion:

Trwy e-bost: legalrequest@equalityhumanrights.com

Dros y ffôn: 0161 829 8407 (dydd Mawrth i ddydd Iau, 10am i 1pm) i Gymru a Lloegr

Allwn ni ddim addo cymryd rhan bob tro, ond hyd yn oed pan nad oes modd i ni wneud hynny, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch chi ar gyfer ein blaenoriaethau yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith cyfreithiol, gan gynnwys ein polisi cydymffurfio a gorfodi, a'n polisi ymglyfreitha strategol, i'w gweld yn www.equalityhumanrights.com